***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 372

# Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022

## RHAN 1

### Cyflwyniad

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn, ac eithrio'r rheoliad a grybwyllir ym mharagraff (3), i rym ar 25 Mawrth 2022.

(3) Daw rheoliad 3(8) (adroddiadau blynyddol gan bwyllgorau safonau) i rym ar 6 Mai 2022.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cyd-bwyllgor corfforedig" ("*corporate joint committee*") yw cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir gan reoliadau o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;

ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972(**1**);

ystyr "Deddf 1980" ("*the 1980 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980(**2**);

ystyr "Deddf 1989" ("*the 1989 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**3**);

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000(**4**);

ystyr "Deddf 2003" ("*the 2003 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2003(**5**);

ystyr "y Rheoliadau sefydlu" ("*the establishment Regulations*") yw—

(a) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021(**6**),

(b) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021(**7**),

(c) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) 2021(**8**), a

(d) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021(**9**).

---

(**1**) 1972 p. 70.
(**2**) 1980 p. 65.
(**3**) 1989 p. 42.
(**4**) 2000 p. 22.
(**5**) 2003 p. 26.
(**6**) O.S. 2021/339 (Cy. 93).
(**7**) O.S. 2021/342 (Cy. 96).
(**8**) O.S. 2021/343 (Cy. 97).
(**9**) O.S. 2021/352 (Cy. 104).